Pris: 50c

Papur Pawb

Tachwedd 2013 Rhif 393

tud 3 Pobl a Phethe
tud 6 Ar y Lein
tud 11 Y Gair Olaf
tud 12 Teigars

BRWYDYR Y PATSHYN PLANT

Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus dros ddeuddydd yn Neuadd Tal y Bont i archwilio'r defnydd o ddarn o dir glas ar stâd Maesyderi a adnabyddir fel Patshyn Plant. Mae'r darn yn sefyll ar ran o'r stâd sy'n cefnu ar y ffordd fawr ac roedd Tai Ceredigion yn awyddus i adeiladu tai yno. Ar sail cymal yn y deddfau cynllunio roedd modd i breswylwyr Maesyderi wrthwynebu drwy ddangos a phrofi fod y patshyn wedi'i ddefnyddio er pwrpas hamdden am dros ugain mlynedd.

Arweiniwyd brwydyr Maesyderi gan Sue Jones-Davies a Heledd Bradley. Yng Ngorffennaf 2011 clywodd y ddwy am fwriad Tai Ceredigion i godi chwe tŷ ar y patshyn. Trefnwyd petisiwn a'r canlyniad oedd cyfarfod safle gan bwyllgor cynllunio Ceredigion gyda hwnnw'n pleidleisio o blaid y datblygaid gyda mwyafrif o un. Dyna pryd y cynghorwyd Sue y gellid cofrestru'r darn tir fel *village green* a hynny'n arwain yn ei dro at yr angen i gynnal ymchwiliad cyhoeddus. Casglwyd dystiolaeth bapur oddi wrth trigolion a chyn drigolion Maesyderi ac yn Mawrth 2013 daeth y penderfyniad bod rhaid cynnal ymchwiliad o fewn chwe mis. Yn y cyfamser roedd Tai Ceredigion, yn dilyn sylwadau gan Gyngor Cymuned Ceulan a Maesmawr, wedi newid ei cais gyda'r bwriad nawr o godi pedwar tŷ yn hytrach na'r chwech gwreiddiol.

Sue Jones-Davies ar y chwith, Heledd Bradley ar y dde.

Roedd yr ymchwiliad ei hun ar batrwm gwrandawiad llys gyda bargyfreithiwr yn cadeirio a gweithredu fel arolygydd ac ail fargyfreithiwr yn ymddangos ar ran Tai Ceredigion. Daeth un ar hugain i siarad ar ran Maesyderi – pob un yn ei dro yn son am ei ddefnydd o'r tir fel llecyn hamdden neu iddynt weld plant yn chwarae yno cyn cael eu holi a chroesholi gan y bargyfreithwyr. Tasg anodd mae'n siwr, yn arbennig i rai nad oedd yn gyfarwydd â'r broses ffurfiol ond cafwyd tysiolaeth glir a chadarn gan bawb. Neilltuwyd yr ail ddiwrnod i achos Tai Ceredigion a chafodd naw o'i gweithwyr a Llyr Edwards, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo gyfle i gyflwyno tystiolaeth. Dywedodd y gweithwyr, un ar ôl y llall, nad oeddent wedi gweld plant yn chwarae ar y patshyn tra'n gweithio ar y stâd. Doedd hynny ddim yn syndod dadleuodd Sue Jones-Davies – roedd plant Maesyderi yn yr ysgol yn ystod oriau gwaith gyda'r defnydd o'r patshyn gyda'r hwyr a phenwythnos. Amlinellodd Llyr Edwards fwriadau'r gymdeithas dai gan ychwanegu fod y Cyngor Cymuned o blaid y datblygiad. Cywirwyd y safbwynt hyn gan Gwilym Huws, Clerc y Cyngor – doedd Ceulan a Maesmawr ddim o blaid nac yn erbyn ac roedd sawl aelod wedi mynegu amheuon ac yn gofidio am golli'r patshyn fel man chwarae. Terfynwyd yr ymchwiliad gyda ymweliad â'r llecyn tir ar stâd Maesyderi.

Wrth gychwyn y broses roedd Sue a Heledd yn ansicir ac yn poeni a allent fel lleygwyr gyflwyno achos effeithiol ger bron yr arolygwr a wynebu croesholi bargyfreithiwr. Ar derfyn y deuddydd roeddent yn falch iddynt wneud ac arwain y frwydyr ar ran Maesyderi. Eu hunig fwriad oedd sicrhau tegwch a gwarchod llecyn chwarae diogel – o fewn golwg rhieni – i blant y stâd. Beth bynnag fydd y canlyniad roedd y cyfan ym marn Sue a Heledd yn werth chweil ac wedi cryfhau'r ymdeimlad o gymuned ym Maesyderi a Thal-y-bont.

Mae'r cymal perthnasol o'r deddfau cynllunio wedi'i ddiddymu yn Lloegr ac mae'n fwriad gan y Cynulliad i ddilyn yr un patrwm. Serch hynny mae brwydyr Maesyderi wedi ysgogi gwrthwynebiad cyffelyb ar stâd Maes Glas yn Aberteifi. Am y dyfarniad, rhaid i hwnnw gael ei gyhoeddi man cynharaf mewn deufis neu fan hwyraf mewn chwe mis. Amser a ddengys felly beth fydd canlyniad brwydyr y Patshyn Plant.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	**(01970) 832560**
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis.	
	GOHEBYDDION LLEOL	
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	**832566**
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	**832498**
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes-y-Coed, Ffwrnais	**(01654)781324**
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Taliesin	**832230**
Tal-y-bont:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	**832592**
	Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	**832438**
Tre'r Ddôl	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	**832429**
	Janet Evans, Cefngweiriog	**(01654) 781260**
Maes y Deri	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	**832483**
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	**832093**
Is-gaderydd	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	**832760**
Ysgrifennydd:	Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	**832433**
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	**832093**
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	**832448**
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	**832076**
Plygu:	Gwenllian Parry-Jones, Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	John Leeding, Lynn Ebenezer, Gwenllian Parry-Jones	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Gymru

Llythyr

Annwyl Darllenwyr,

Fel elusen cenedl y galon hoffem roi gwybod i'ch darllennwyr ein bod yn cynnig taflenni cyfrwng Cymraeg i helpu newid ffordd o fyw er mwyn bod yn iachach – a gwybodaeth pwysig am reoli cyflyrau ar y galon.

Mae Clefyd Coronaidd y Galon yn dal i ladd mwy o bobl Cymru nag unrhyw glefyd arall. Yn ogystal ag ariannu gwaith ymchwil arbenigol ar y galon yng Nghymru a chefnogi 97 o nyrsys y galon yng Nghymru, rydym yn ymdrechu i gefnogi cleifon y galon a gofalu amdanynt, ac i atal clefyd y galon trwy hybu byw'n iach yn ein cymunedau.

Gall clefyd y galon effeithio ar bawb ohonom – o'r plentyn lleiaf sy'n cael ei eni â nam ar y galon, i oedolon sy'n brwydro oherwydd methiant y galon. Os hoffech ragor o wybodaeth am ein cyhoeddiadau Cymraeg neu Saesneg: ewch i – *www.bhf.org.uk/publications* neu ffoniwch – 08706 006 566

Rwyf i yn un o dîm o gydweithwyr a fydd yn hapus i ddod at fudiadau lleol i sôn am ein gwaith yn lleol a rhanbarthol ac mae croeso i chi gynnig ychydig o ddyddiadau pryd y cawn ddod i sgwrsio â'ch mudiad.

Yna fe gysylltaf i â chi cyn gynted ag y gallaf.

Diolch yn fawr,

Jayne Lewis

Swyddfa: 01554 891 500
Symudol: 07860 727 547
E-Bôst: lewisja@bhf.org.uk

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN

Pencefen ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Cylch Cinio

Dilwyn Jones yn derbyn siec o £100 o nawdd i Bapur Pawb gan Rees Thomas, Bow Street, Cyn-Gadeirydd Cylch Cinio Aberystwyth. Hefyd yn y llun mae Cadeirydd newydd y Cylch, Endaf Edwards a'r Trysorydd Dickywyn Davies, Penrhyn-coch. Mae'r Cylch Cinio yn noddi y pedwar papur bro yn yr ardal ers rhai blynyddoedd. Sefydlwyd y Cylch Cinio dros 30 o flynyddoedd yn ôl ac mae'n cyfarfod yn fisol dros bryd da o fwyd ac yn gefnogol i lawr o achosion da yn lleol a thu hwnt. Mae'r Cylch hefyd yn noddi cystadleuaeth y Côr yn Eisteddfod Aberystwyth 2014. Mae'r drws ar agor i aelodau newydd o bob oed.

Dyddiadur

Tachwedd

8 Noson Cerddoriaeth 1970au, Ystafell Haearn, 7.00 yp
10 Bethel 2 Parch Andrew Lenny
Nasareth
Rehoboth 2 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant
Neuadd Goffa 10.45 Sul y Cofiant
12 Cwrdd Chwiorydd Rehoboth 2yp '*Hen Hud y wlad*' (Lyn Ebenezer)
17 Bethel 10 Gweinidog (C)
Nasareth
Rehoboth 10 Rhydian Griffiths
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
18 Merched y Wawr 'Glan Merin – ein cartref' (Alun Jones)
21 Sefydliad y Merched Gweithdy Arlunio (Jenny Smith)
24 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu Rhyfel/Heddwch/Trais/Cofio (Mererid Hopwood)
Nasareth 2 Parch Ifan Mason Davies
Rehoboth 5 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Teuluol
26 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn Richard Ireland, '*Criminal Photography*', Llanfach, Taliesin, 7.30
28 Merched y Wawr 7.30 Ceredigion – Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Bois y Gilfach – Capel y Tabernacl, Aberaeron. Elw at Sefydliad Prydeinig y Galon yng Ngheredigion.
30 Neuadd Goffa , Tal-y-bont Ffair y Neuadd 2 yp
Ystafell Haearn, Ffilm "*Life of Pi*" 7.30 yh

Rhagfyr

1 Bethel 5 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth 10 Parch Richard Lewis
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
3 Sefydliad y Merched, Cinio Nadolig *Wildfowler*, Tre'r Ddol
8 Bethel 10 Gwenidog
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 10 Parch Richard Lewis
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
9 Merched y Wawr Neuadd Goffa 2 yp Mae'r Nadolig yn nesau
10 Cymdeithas y Chwiorydd Festri Capel Rehoboth, Taliesin, 2 yp Catherine Woodward, '*Casglu cwpanau*'.
12 Sefydliad y Merched Neuadd Goffa Parti Nadolig (gydag anrhegion)
18 Neuadd Goffa 8 yh Gyrfa Chwist Dofednod (Cymdeithas Sioe Tal-y-bont)

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442), glenysedwards33@btinternet.com o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Cyfarfod Blynyddol Ffrindiau Cartref Tregerddan
26 Tachwedd
7 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

GYRFA CHWIST DOFEDNOD
Cymdeithas Sioe Tal-y-bont
Nos Fercher 18 Rhagfyr
8.00 o'r gloch
yn y Neuadd Goffa
Croeso i bawb!

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Geraint Evans a Geraint a Sian Pugh, gyda Iolo'n dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Helen Jones (helen.iwan@btinternet.com – 832760) a Ceri Jones (stiwdio@ceri-talybont.com – 832543), gyda Ceri'n dylunio. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn Dydd Gwener, 6 Rhagfyr. Bydd y papur ar werth ar 13 Rhagfyr.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

- **Cristnogaeth 21 yn Morlan** (7.30, 13 Tachwedd) – *Byw'r Cwestiynau*
- **Gŵyl Lyfrau Morlan** (15-16 Tachwedd) – yn cynnwys Parti Dathlu Rala Rwdins a sesiynau gyda Dafydd John Pritchard, Francesca Rhydderch, Eigra Lewis Roberts a Hywel Gwynfryn
- **Gwin a Chaws i Gân a Cherdd** (7.30, 20 Tachwedd. Tocynnau: £10
- ***Pridd*** (7.30, 23 Tachwedd). Theatr Genedlaethol Cymru. Tocynnau: £9/£7

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
CROESO CYNNES I BAWB!
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**

Pobl a Phethe

Marwolaeth
Bu farw Terry Myring, Quarter Deck, Ffwrnais 29 Medi yn dilyn gwaeledd hir. Cydymdeimlwn gyda Georgina, Stuart, Lee a Nicola a'r teulu.

Grŵp Hanes Lleol
Cynhelir cyfarfod cychwynol Grŵp Hanes Lleol Ysgubor y Coed nos Lun 11 Tachwedd, 7.00pm. Am ragor o fanylion cysylltwch efo Ben Williams 01654 781 370.

Bore Coffi
Cynhelir Bore Coffi 10.30-12.00 dydd Gwener 22 Tachwedd yn yr Ystafell Haearn (*Iron Room*), cyflwynir yr arian a godir i gefnogi Community Carbon Link Kenya.

Gŵyl R S Thomas
Diolch i bawb a gefnogodd Gŵyl R S Thomas, llwyddwyd i godi £2,150 ar gyfer yr eglwys.

Gwasaneth Diolchgarwch
Codwyd £132 tuag at Cynghrair Cyfeillion Machynlleth yn ystod gwasaneth diolchgarwch diweddar yn yr Eglwys.

Digwyddiadau
8 Tachwedd, Noson Cerddoriaeth 1970au, Ystafell Haearn, 7.00pm
30 Tachwedd, Ffilm "*Life of Pi*", Ystafell Haearn, 7.30pm. Cofiwch bod modd llogi cyfleusterau sinema sydd yn yr Ystaefll Haearn ar gyfer dangosiadau preifat.

Arholiad Piano
Da iawn ti Ben Jones Hughes, Maesyderi, Tal-y-bont ar pasio dy arholiad piano Gradd 6. Mae'n amlwg dy fod wedi bod yn ymarfer llawer.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Hedydd Mai Phylip, Gwynionydd, Tal-y-bont ar ennill gradd Meistr yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Caeredin. Pob dymuniad da iddi hefyd yn ei swydd newydd ym Mrwsel, Gwlad Belg, lle bydd yn gweithio i Jill Evans ASE yn Senedd Ewrop.

Priodas
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Ceri-Elin Foulkes, Rhosawel, Tre Taliesin a Christopher Chaudhuri, Aberteifi a briododd 4 Hydref 2013 yng ngwesty'r Conrah, Aberystwyth.

Llongyfarchiadau hefyd i Huw Evans, Cefngweiriog, Tal-y-bont, sydd wedi pasio ei brawf gyrru yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Annie Jones, Tŷ Twt, Tal-y-bont, sydd wedi bod yn dathlu pen-blwydd arbennig.

Llongyfarchiadau i'r Athro Wayne Powell, Cyfarwyddwr IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth ers 2008, sy'n byw yn Bont-goch, ar ei benodiad fel Brif Swyddog Gwyddoniaeth yng Nghonsortiwm byd-eang CGIAR yn Ffrainc.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Heather Nicholls a theulu Llys Terfyn, Tal-y-bont, wedi iddynt golli mam, mam-yng-nghyfraith a mam-gu, sef Beryl Nicholls, Hefyd â Helen Pritchard, y Llew Gwyn, Talybont, sydd wedi colli ei chwaer.

Gwellhad buan
Gwellhad buan i Sadie Jenkins, Maes-y-Deri, Tal-y-bont; ac i Simon Hughes, Lerry Mills, Tal-y-bont, wedi i'r ddau ohonynt fod yn anhwylus fis diwethaf.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD
Roedd festri capel Rehoboth, Taliesin, yn llawn ar brynhawn Mawrth, 8 Hydref, pan groesawyd y Prifardd Idris Reynolds i'n annerch. Traddodwyd gweddi gan y Parchedig Wyn Morris i ddechrau'r cyfarfod. 'Atgofion am Dic Jones' oedd testun sgwrs Idris Reynolds, ac fel cyfaill iddo, cafwyd ganddo ddarlun cyflawn o fywyd Dic Jones o'i eni yn Nhre'r-ddôl yn 1934 hyd ei farwolaeth yn 2009. Gan fod traddodiad llenyddol cryf yn bodoli yn ardal Aberteifi, fe ddysgodd Dic Jones y grefft o gynganeddu gan Alun y Cilie. Enillodd gadeiriau yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, a chyhoeddwyd sawl cyfrol o'i waith. Yn ogystal ag etifeddu'r ddawn farddonol gan ei fam, etifeddodd hefyd ddawn gerddorol gan ei dad, a bu'n canu gyda chôr lleol ar hyd ei oes. Yn ystod y prynhawn dyfynnwyd llawer o waith Dic Jones, gŵr a oedd yn Archdderwydd Cymru adeg ei farwolaeth a gŵr a roddodd gymaint nid yn unig i'w fro ond i Gymru gyfan. Talwyd y diolchiadau gan Myfanwy Rowlands, cyfnither i Dic Jones, ac adroddodd hithau lawer o'i hatgofion amdano, ac roedd pawb yn gytun i ni gael prynhawn pleserus iawn. Olwen Rowlands a Megan Brickley oedd yng ngofal y tê.

Ffarwelio
Daeth aelodau Rehoboth, Taliesin ar nos Sul 5ed o Hydref i ffarwelio â Haydn a Phyllis Ellis, deiliaid y tŷ capel, Manteg ers saith ar hugain o flynyddoedd. Ar ôl yr oedfa, roedd tê yn y festri a chyfle i bawb i ddiolch i'r ddau am eu cymwynasgarwch a chydweithrediad parod bob amser. Dymunasom pob bendith i'r ddau yn eu cartref newydd yn Llanilar. (gwler llun ar tud.4).

Noson Calan Gaeaf yn Bont-goch

Garej Paul Joseph
01970 822220
Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT

Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Cynllun Gŵen

Mae'r wyth wythnos ddiwethaf wedi bod yn gyfnod prysur i blant bach y Cylch Meithrin. Rydym wedi cychwyn gweithredu'r rhaglen ddeintyddol Cynllun Gŵen. Mae'r cynllun yn helpu plant i gael dannedd iachach drwy frwsio'u dannedd ar ôl tocyn boreuol yn y Cylch. Er mwyn hybu dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd glanhau dannedd aethom am dro i'r Lolfa i brynu llyfr newydd Alun yr Arth sef Alun a'r Ddannodd.

Parti Calan Gaeaf

Eleni eto gwelwyd y Neuadd Goffa yn llawn o greaduriaid arswydus ar noson Calan Gaeaf. Cafwyd digon o fwyd blasus a llond bol o felysion cyn y gystadleuaeth gwisg ffansi. Roedd cystadleuaeth gref iawn am y bwmpen orau gyda Billy Swanson yn ennill gyda'i bwmpen cath. Daeth y noson i ben gyda disgo gan Terry. Diolch yn fawr i bawb am bob cefnogaeth a chymorth. Diolch arbennig i Shelley a Hayley am eu rhodd hael o selsig a rholiau bara.

Rhai o flaenoriaid Rehoboth gyda'r Parchedig Wyn Morris yn cyflwyno tysteb i Haydn a Phyllis Ellis (Hanes yn P&P tud. 3).

Sbri di ri

Roedd cyffro mawr ar ddydd Iau'r 10fed o Hydref pan fu'r Cylch a dosbarth Cyfnod Sylfaen yr Ysgol i Ysgol Penglais ar gyfer sioe Sbri-di-ri. Cafwyd bore o hwyl yn canu a dawnsio gyda Gwenda

Bydd noson goffi a chyngerdd Nadolig y Cylch Meithrin yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar nos Lun y 9fed o Ragfyr am 6.30yh. Dewch i fwynhau noson gymdeithasol ynghwmni'r plant ac i brynu anrhegion Nadolig.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

James Memorials

Am GOFEBAU ARBENNIG BEDDARGRAFFIADAU ADNEWYDDU O SAFON ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Dirgelwch

Wrth dacluso ar lan afon Einion yn Cae Bont Eglwysfach ganol mis Hydref eleni, daethom ar draws y pysgodyn yma yn y glaswellt, o fewn tua deg llath o'r afon. 'Roedd yn mesur dwy droedfedd o hyd a gan nad oes pysgod mor fawr a hyn yn yr Afon Einion erbyn hyn mae yn ddirgelwch mawr i John a minnau.

Sut y cyrhaeddodd i'r fan hyn, a thybed pa anifail neu aderyn ysglyfaethus byddai wedi ei ddal a'i gario heb fwyta fawr ohono ?

Non Jenkins, Ffwrnais.

Sefydliad y Merched, Talieisin Hydref 2013

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y gangen nos Fawrth 1af Hydref, pryd yr etholwyd arweinyddion newydd i ymuno hefo aelodau y pwyllgor.

Llywydd – Beti Wyn Davies,
Ysgrifennydd – Liz Roberts,
Trysorydd – Kath Jones.

Diolchodd Beti Wyn, ar ran yr aelodau, am waith trylwyr Pat Jones, Margaret Fogg a Lynda Hicks am eu gwaith ardderchog wrth y llyw yn ystod y blynyddoedd a'r misoedd diwetha'.

Yn dilyn, bu Heather Williams, ein gwraig gwadd, yn dangos y ffordd iawn o wneud Massage y dwylo. Bu Heather yn gweithio hefo'r Groes Goch am dros 25 o flynyddoeadd yn cynnig gwasanaeth tylino'r corff i'r rhai hynny oedd eisiau y cymorth. Bu'r aelodau i gyd yn ymarfer y dull o ymgymeryd â'r gwaith yma a oedd yn hynod therapiwtig a phleserus.

Diolchwyd iddi am y noson ddifyr gan Christine Gilbert.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar nos Lun, Hydref 21ain pan groeshawyd Shân James, Penrhyn-coch atom gan Elizabeth Evans, Llywydd y mis. "Addurno cacennau" oedd arlwy'r noson a chafwyd cyfle i weld Shân wrth ei gwaith yn llunio addurniadau cywrain a lliwgar i'w rhoi ar gacennau. Dangosodd i ni y deunyddiau a'r amrywiol offer ddefnyddia i greu'r cyfan. Roedd y cacennau cwpan yn tynnu dŵr o'n dannedd a'r blodau eisin yn denu edmygedd pawb.

Menter gymharol ddiweddar yw hon i Shân, a does ryfedd ei bod wedi ennill gwobrau lu mewn sioeau lleol a chenedlaethol. Mae'n amlwg bod ganddi ddiddordeb heintus, dawn arbennig ac amynedd di-ben-draw yn y cyfeiriad hwn. Roedd manylder y gwaith yn anhygoel a phob dim yn edrych mor real.

Cytunai pawb i ni gael noson ddiddorol a'r her nawr yw mentro arni wrth baratoi at y Nadolig. Beth am ddechrau ar gyfer ein stondin yn Ffair Neuadd Tal-y-bont ar Tachwedd 30ain pan fyddwn yn gyfrifol eto eleni am y stondin gacennau.

Cyn troi tuag adre cafwyd cyfle am sgwrs dros baned wedi ei baratoi gan Tegwen a Margaret.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar nos Lun, Tachwedd 18ed pan fyddwn yn croesawu Alun Jones atom i roi sgwrs ar "Glan Merin .... ein cartref". Cofiwch ddodd â nwydd i'w roi yn yr hamper ar gyfer ein raffl yn Ffair y neuadd i'r cyfarfod hwn.

Beth am droi i fewn i ymuno â ni? Mae croeso cynnes i gyn-aelodau ac aelodau newydd. Byddwn yn hynod o falch o'ch cwmni.



O'R CYNULLIAD

Mae dechrau tymor newydd y Cynulliad Cenedlaethol yn sicr wedi bod yn gofiadwy – ond nid o reidrwydd am y rhesymau cywir! Son wyf i, wrth gwrs, am y ddwy ergyd i Geredigion sydd wedi hoelio fy sylw i a'r Cynulliad. I ddechrau, cyhoeddiad *Arriva* fod y cwmni am atal ei wasanaethau bws ym mis Rhagfyr, ac yna trafferthion Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Gan ddechrau gydag iechyd, waeth beth fo 'sbin' Bwrdd Hywel Dda, mae'n ddigon amlwg fod yna broblemau gyda'r modd y mae'r Bwrdd yn cael ei weinyddu. Prinder staff oedd yr esgus am dorri'r nifer o welyau ym Mronglais, a pharatoi at y gaeaf oedd y rheswm a roddasant dros ohirio llawdriniaeth orthopaedig. Ond siawns nad ydy newid y tymhorau yn dod fel syndod iddynt, ac hefyd mae digon o straeon am arafwch yn y broses recriwtio nyrsys sy'n arwain rhywun i amau mai gwendidau rheoli sydd ar fai. Mae'n annerbyniol y bydd llawfeddygon nawr yn segur dros y gaeaf tra fod pobl mewn poen yn disgwyl am eu triniaeth. Rwyf wedi galw am ymchwiliad llawn i weinyddiaeth y Bwrdd, a byddaf yn parhau i bwyso ar y Llywodraeth i gael atebion.

O ran bysiau, rwy'n gwybod fod llawer o waith caled yn digwydd y tu ôl i'r llenni i sicrhau y bydd cwmnïau lleol yn medru camu i'r bwlch lle bu gwasanaethau *Arriva*. Mae'r gwasanaethau yma yn hanfodol wrth gwrs i nifer o ardaloedd yng Ngheredigion, ac yn gyswllt pwysig gyda'r rhwydwaith drafnidiaeth ehangach. Cefais sawl cyfarfod ar y mater gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth ac aelodau o'r Cyngor Sir. Mae angen rhywfaint o gymorthdal i sicrhau fod y gwasanaethau yn parhau ar ddiwedd Rhagfyr, ond yn y tymor hir mae cyfle yma i gael rhwydwaith fysiau mwy strategol a threfnus.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, hoffwn ddiolch i'r busnesau ymatebodd i'm holiadur ar gyflwr y diwydiant twristiaeth. Ymddengys fod 2013 wedi bod yn flwyddyn dda ar y cyfan, ond mae mwy y gallwn ei wneud i hybu Ceredigion. Roedd yn bleser gwahodd rhai cannoedd o bobl i'r ardal yn sgil cynhadledd Plaid Cymru ar ddechrau Hydref, ac edrychaf ymlaen at gyfres newydd Y Gwyll ar S4C yn dangos Ceredigion i'r byd.

Elin Jones AC

CLWB FFERMWYR IEUANC

Cynhaliwyd diwrnod maes y sir yn IBERS Gogerddan ar ddydd Sadwrn 28 ain o Fedi. Bu'r canlynol yn llwyddiannus;
Barnu stoc:

Tîm dan 14 oed – Tal y Bont – cyntaf.
Tîm dan 18 oed – Tal y Bont – pumed.
Tîm dan 26 oed – Tal y Bont – pedwerydd.
Cystadleuaeth sialens ATV:
Rhys Richards a Richard John – cyntaf.

Bydd y Clwb yn cyrraedd ei chwe degfed penblwydd eleni gan ddangos ei gryfder drwy groesawu y Rali Sirol nôl i fferm Berthlwyd. Cychwynnodd y Clwb yn 1953 ac mae wedi ennill y Rali wyth gwaith.

Cynhelir noson o bigion yr eisteddfod sir yn y Neuadd Goffa am 7.30 o'r gloch ar nos Iau yr unfed ar hugain o Dachwedd. Dewch yn llu i ddathlu gyda ni.

Mae Cinio dathlu ein trigeinfed penblwydd yng Ngwesty'r Marine Aberystwyth ar Tachwedd 23 lle bydd gwledd o fwyd. Mae croeso i bawb i ymuno gyda ni yn y noson a fydd yn nodi'r garreg filltir bwysig hon ac fe fydd Dai Jones Llanilar yn ŵr gwadd y noson. Cysyllwtch â Geraint Penbontbren Uchaf i roi enwau gogyfer â'r cinio dathlu (ffôn 07854 - 515936).

AR Y LEIN

Mae Barry Morgan, Awelon Tal y Bont newydd ymddeol ar ôl dros ddeng mlynedd ar hugain o weithio fel peiriannydd dioglewch ar reilffyrdd canolbarth Cymru. Dechreuodd Barry ar ei yrfa yn 1981 yn swyddfa peirianyddol Rheilffyrdd Prydeinig a oedd ar adeg hynny wedi'i lleoli yng Nghaersws. Symudodd y swyddfa i Fachynlleth yn 1984 ac ar ôl hyffroddiant penodwyd Barry yn Arolygwr Pontydd. Pan breifateiddiwyd y rheilffyrdd yn 1995 aeth i weithio i amrwyiol gwmnïau ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe'i cyflogwyd fel Swyddog Diogelwch gan gwmni *Amey*. Ar adeg ei ymddeoliad roedd yn gweithio hanner amser o'i swyddfa fechan yn Awelon a hanner amser allan yn archwilio'r lein.

Roedd patsh Barry yn cwmpasu y rhwydwaith i'r gorllewin o Amwythig ac hefyd rhannau o'r gororau yn ymestyn i Wrecsam, Henffordd a Crewe. Bob mis Ebrill mae Network Rail yn cyhoeddi cynllun gwaith ac wedyn mae lan i Barry a'i gydweithwyr i fynd allan i archwilio'r lein. Yn llythrennol mae hyn yn golygu cerdded y trac o Amwythig i Aberystwyth (a'r traciau eraill) i archwilio'r twneli, y pontydd a phob cafn a draen sy'n cario dŵr oddi ar y lein. Mae cerdded y cyfan i Abersytwyth yn cymeryd pythefnos gan rannu'r daith i dalpau o bum i ddeng milltir. Yn ôl Barry mae cyflwr rheilffordd y Cambrian yn dyst i grefftwaith y seiri maen gwreiddiol a gweledigaeth David Davies Llandinam a fu'n ddigon mentrus i gynllunio a gosod rheilffordd ar draws tir mor anial. Ond dyma dirwedd sy' hefyd yn wynebu tywydd caled a rhaid cadw golwg cyson ar y meini a'r muriau o osodwyd yn eu lle yn oes Fictoria.

Mae'r gwaith yn gofyn am ganolbwyntio trylwyr ac wrth gwrs am ofal arbennig wrth gerdded y lein. Mae trenau heddiw'n hynod o dawel ac ar rai darnau o'r trac rhwng Aber ac Amwythig yn teithio ar naw deg milltir yr awr. Iawn ma' gyda chi amserlenni ond fel y gŵyr teithwyr allwch ddim bob tro ddibynnu ar yr amserlen! Yn ogystal â pheryglon y trenau mae'r tywydd yn elyn parhaol ac roedd Barry ar alwad pedair awr ar hugain saith diwrnod yr wythnos. Problem arall oedd lorïau mawr yn taro canllaw neu seiliau pontydd. Mae'n cofio i lori yn cario JCB enfawr daro rhan o'r bont ger gorsaf Machynlleth. Roedd gwir beryg wedyn fod y trac uwchben ddim yn union a'r ddamwain yn gofyn am archwiliad manwl. Tro arall gorfod mynd i safle pont ger Aberdyfi lle roedd car wedi gyrru dros yr ochr a glanio'n dwt at yr lein islaw!

Oes ma' na beiriannau i gynorthwyo'r gwaith ond mae na ddarnau o'r lein a thasgau na ellid ond eu cwblhau gyda nerth bôn braich. Un tro cafodd Barry ei alw i glirio creigiau o glogwyni rhwng Llandanwg a Harlech. Dim ond un ffordd oedd i wneud y gwaith sef gosod rhaffau ar ben y clogwyn, abseilio am lawr, archwilio a symud y creigiau rhydd.

Rhywbeth sy'n unigryw i reilffyrdd y Cambrian yw'r nifer o bontydd coed sy'n cario'r lein. Mae un ger gorsaf Glandyfi, un arall yn croesi'r Hafren tu hwnt i Gaersws ac wrth gwrs un enfawr ar draws y Fawddach ym Mermo. Mae'r coed, rhan o'r adeiladwaith gwreiddiol o'r 1860au yn agored i'r tywydd a thonnau'r môr ac yn gofyn am ofal cyson. Gan weithio o ysgolion, sgaffaldau neu gychod bychian (*pontoons*) byddai Barry'n taro pob trawst y pontydd gyda morthwyl – roedd sŵn cau yn golygu fod y coed wedi pydru a darn newydd yn cael ei osod yn ei le. Coed *Greennhart* o America a ddefnyddir heddiw – coed arbennig o galed a chryf, yn para blynyddoedd maith.

Fe fydd Barry'n dal i weithio'n achlysurol i lanw bylchau ond ar ôl cyfnod hir o gael ei alw allan yng nghanol nos mewn tywydd garw mae wedi penderfynnu mae digon yw digon. Mwy o amser felly i'r teulu ac i ddilyn ei ddiddordebau hamdden o gerdded, seiclo ac yn arbennig pysgota'r llynnoedd yn ardal Nantymoch. Pob hwyl iddo ar ei ymddeoliad a thro nesaf y byddwch chi'n teithio i Amwythig cofiwch am Barry Morgan a'i gydweithwyr a sicrhaodd fod eich siwrne'n ddiogel.

GIE

IONAWR SYCH

FEDRI DI FYND HEB Y DDIOD AM 31 DIWRNOD?

YMUNA TRWY WWW.DRYJANUARY.ORG.UK/CYMRAEG

I gael gwybod mwy cysylltu ag Alcohol Concern trwy dryjanuary@alcoholconcern.org.uk

Alcohol Concern | Elusen gofrestredig rhif 291705
Suite B5, West Wing, New City Cloisters, 196 Old Street, Llundain, EC1V 9FR

Clwb Nos Wener

Nos Wener, 25 Hydref, roedd Y Llew Du, Tal-y-bont, dan ei sang ar gyfer cynhyrchiad Theatr Bara Caws o 'Annwyl Kate, Annwyl Saunders'.

Yng nghwmni dau o actorion enwocaf Cymru – Maureen Rhys a John Ogwen – cyflwynwyd detholiad o'r llythyron a ddanfonwyd yn ôl ac ymlaen rhwng Saunders Lewis a'r Dr Kate Roberts dros gyfnod o 60 mlynedd rhwng 1923 ac 1983. Roedd y gynulleidfa yn amlwg wrth ei bodd gyda chynhyrchiad o'r safon uchaf.

Hwn oedd y perfformiad olaf o'r cynhyrchiad yn y daith o amgylch Cymru, a braf oedd clywed esboniad Maureen Rhys ar ddiwedd y perfformiad ynghylch sut y daeth i ddethol yr ohebiaeth i'w cyflwyno allan o gyfrol Dafydd Ifans.

Trefnwyd y noson fel rhan o raglen Clwb Nos Wener gan Falyri Jenkins, ac fe ddiolchwyd i Maureen Rhys a John Ogwen ar ddiwedd y noson gan Gwyn Jenkins.

TANCHWA SENGHENYDD – ETO

Serfiet a argraffwyd i goffau'r drychineb.

Yn rhifyn Hydref o *Papur Pawb* cafwyd y wybodaeth am ddau ŵr o Bont Goch a gollodd eu bywydau yn nhanchwa Senghenydd. Y tro hyn hanes un a ddihangodd yn ddianaf – Dafydd Griffiths, Pentreuchaf Tal y Bont, tadcu Mrs Falma Jones Y Wern ar ochr ei mam. Oherwydd prinder gwaith yn lleol roedd Mr Griffiths wedi mynd i gymoedd y de i chwilio am gyflogaeth yn y pyllau glo. Cafodd waith ym mhwll yr Universal Senghenydd a oedd yn cyflogi yn agos at naw cant a hanner. Ychydig ar ôl wyth y bore 14 Hydref 1913 cafwyd ffrwydriad enfawr yn lefelau gorllewinol y pwll a arweiniodd at y danchwa a laddodd 439 o lowyr – y ddamwain fwyaf angeuol yn y diwydiant glo ym Mhrydain. Dirwywyd rheolwr y pwll £24 am dorri rheolau diogelwch a'r perchennog William Thomas Lewis – yn hwyrach Barwn Merthyr – y swm o £10. Dyna bris bywyd y glöwr.

Trwy wyrth nid oedd Dafydd Griffiths ymhlith y rhai a laddwyd. Roedd y cannoedd a gollodd eu bywydau'n gweithio ar y sifft nos a Dafydd ar sifft y dydd oedd i gychwyn yn union ar ôl y danchwa. Danfonwyd brysneges i'r teulu yn dweud iddo ddianc ac yn fuan ar ôl hynny dychwelodd Dafydd i Dal y Bont lle bu'n byw tan ei farwolaeth yn 1935 yn 78 mlywdd oed.

Uwchraddio Gweithfeydd Trin Dŵr Bont-

(chwith i dde) John Farmer (*Black and Veatch*); Ron Durrans (DCWW Rheolwr Prosiect); Ian Murphy (*Capital liaison Manager* DCWW); Gwilym Huws (Cyngor Cymuned Ceulanmaesmawr); Ellen ap Gwynn (Arweinydd Cyngor Ceredigion); Elin Jones (AC Ceredigion).

Mae Dŵr Cymru wedi dechrau gwaith ar brosiect pwysig 18 mis o hyd i uwchraddio Gweithfeydd Trin Dŵr y Bont-goch. Bydd y prosiect yn dod â manteision tymor hir i dros 60,000 o gwsmeriaid yn yr ardal, gan sicrhau eu bod yn cael cyflenwadau dŵr yfed diogel a dibynadwy o safon uchel am flynyddoedd mawr i ddod.

Mae gweithfeydd Bont-goch yn trin dŵr o gronfa ddŵr Craigypistyll. Bydd y prosiect £9 miliwn yn cynnwys uwchraddio ac ehangu'r gweithfeydd trin dŵr. Bydd hyn yn cynnwys gweithfeydd hidlo newydd sbon wedi ei ddylunio fel ei fod yn cyd-fynd â'i amgylchedd gwledig gymaint â phosibl. Mae'r trigolion lleol wedi dangos diddordeb yn y gwaith, gan edrych ymlaen at gael adeiladu maes chwarae newydd ar gyfer y gymuned a chreu cyfle i ysgolion lleol gael cip ar fyd dŵr.

Dywedodd AC Ceredigion, Elin Jones; "Roeddwn i wrth fy modd i gael ymweld â'r gweithfeydd yn y Bont-goch a chael dysgu rhagor am y dulliau o drin y dŵr a'i gyflenwi i gwsmeriaid ar draws gogledd Ceredigion. Mae llawer o waith yn cael ei wneud cyn bod y dŵr yn cyrraedd ein tapiau, ac roedd hi'n hyfryd cael cwrdd â'r tîm yn y Bont-goch a gweld sut maen nhw'n mynd ati i sicrhau bod cyflenwad glân a diogel o ddŵr ar gael bob amser. Rwy'n croesawu buddsoddiad sylweddol Dŵr Cymru yn yr ardal, a fydd yn sicrhau ein bod ni'n parhau i gael gwasanaeth dibynadwy o safon uchel am ddegawdau i ddod".

Ychwanegodd Arweinydd Cyngor Ceredigion, a'r Cynghorydd lleol, Ellen ap Gwynn; "Roedd hi'n hyfryd cael ymweld â'r safle a gweld sut y bydd Dŵr Cymru'n uwchraddio gweithfeydd mor hanfodol dros y flwyddyn nesaf. Mae hi'n fuddsoddiad sylweddol yn y sir, ac rydw i wrth fy modd fod y cwmni'n chwarae rhan mor weithgar yn y gymuned leol hefyd.

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON
GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

MID WALES STORAGE
Storfa Canolbarth Cymru
STORFA DODREFN
STORFA FUSNES ARCHIFAU
STORFA I FYFYRWYR
PACEDU
DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS
www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

Trawsgwlad
Ar ddechrau mis Hydref aeth dros 20 o blant yr ysgol i gystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad y cylch ar Gaeau'r Ficerdy. Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu ac yn arbennig i Cai (3ydd), Chloe (4ydd), Eli (8fed) a Ioan (8fed) am ddod yn y 10 cyntaf, ac felly'n cael cyfle i gynrychioli ardal Aberystwyth yng nghystadleuaeth rhanbarth yr Urdd yn y flwyddyn newydd.

Gwasanaeth Diolchgarwch
Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol eleni yn Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont ar ddiwedd mis Hydref. Roedd hi'n hyfryd i weld yr eglwys yn llawn a chymaint o gynulleidfa'n cefnogi'r ysgol a llwyddwyd i greu naws arbennig yn ystod y gwasanaeth. Dymuniad y Cyngor Ysgol oedd y byddai casgliad y gwasanaeth yn mynd at elusen *Macmillan* ac mae'n braf nodi ein bod wedi casglu tua £130. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r plant am ddysgu eu gwaith mor arbennig, i'r staff am eu hyfforddi ac i'r ficer Peter Jones a swyddogion yr eglwys am baratoi ar ein cyfer.

Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol
Ar Ddydd Iau y 17eg o Hydref aethom ni, blwyddyn 5 a 6 i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Aethom i weld arddangosfa sy'n dod â phedair llawysgrif hanesyddol eiconig o dan yr un to am y tro cyntaf erioed yn cael ei hagor yn swyddogol gan John Griffiths, Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru. Cafodd y llawysgrifau eu hysgrifennu yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac mae llawer o gyfeiriadau at chwedlau a llenyddiaeth gynnar Cymru i'w cael rhwng y cloriau. Enw'r llyfrau ydy Llyfr Taliesin, Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Aneirin a Llyfr Coch Hergest. Ar ôl clywed hanes y llyfrau daeth dyn ffilmio o'r BBC i'n ffilmio a chyfweld â ni am y llyfrau pwysig. Yna aethom ni i'r ystafell ddosbarth a chwblhau cwis yn ein grwpiau am y llyfrau. Buon yn ffodus iawn i gwrdd â John Griffiths, Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon Cymru ei hunan. Gwelsom gopi o Lyfr Du Caerfyrddin a chael lluniau efo'r Gweinidog!
Gan Glain Davies a Nia Benham blwyddyn 5.

Cofio T. Llew Jones
I ddathlu diwrnod T. Llew Jones aethom ni, sef blwyddyn 3, 4, 5 a 6 i Bentre Bach ym Mlaenpennal. Fe ddysgom ni am Wylliaid Cochion Mawddwy. Roedd pawb yn gyffrous. Yn gyntaf, fe aethom i dŷ Pêl-Droed Nicw Nacw i weld yr offer y byddai'r Gwylliaid yn eu defnyddio i hela ac i gasglu bwyd. Yna, aethom drws nesa i gael stori am y Gwylliaid gan Mrs Delyth Huws. Clywsom hanes y Barwn Owen a sut yr oedd y Gwylliaid yn ei hala'n wyllt gacwn. Un diwrnod fe welodd eira ar y llawr ac fe ddwedodd, "Mae'n ddiwrnod gwych i hela'r Gwylliaid. Fe wna i hela'r Gwylliaid heddiw". Felly fe aeth â'i wŷr a'i filwyr i hela'r Gwylliaid yn y goedwig. Ar ôl tamed o amser roedd pawb yn ofni'r coed, hyd yn oed y dewraf. Ond cario mlaen a wnaethon nhw. Yn sydyn fe welon nhw rai o'r Gwylliaid, eu dal a'u crogi! Ddangosodd y Barwn ddim trugaredd ac fe grogodd o ddau o'r Gwylliaid ifanc hefyd. Roedd eu mamau'n wyllt gacwn. "Fe fydd dial!" sgrechiodd y fam. Ond chymrodd y Barwn Owen ddim sylw. Aeth amser heibio ac un diwrnod pan oedd y Barwn ar ei geffyl fe ddaeth cawod o saethau. Fe gwympodd y Barwn ar y llawr. Roedd un o'r saethau wedi ei daro yn ei y stumog ac aeth y Gwylliaid Cochion i rwbio eu dwylo yn ei waed.

Ysgol

Ar ôl clywed y stori aethom i'r neuadd i gael diod a bisged cyn cael cwrdd â'r awdures Bethan Gwanas. Mae hi wedi ennill cystadleuaeth arbennig wrth ysgrifennu pennod cyntaf o nofel er cof am T. Llew Jones. Dewisiodd hi ysgrifennu am y Gwylliaid Cochion a gan ei bod wedi ennill mae'n rhaid iddi fynd ati i orffen y nofel nawr. Darllenodd y ddwy bennod gyntaf ac roeddem wrth ein boddau yn ei chlywed yn darllen i ni. Mae'n stori anturus ac roedd llawer o ddarnau doniol yn gwneud i ni chwerthin. Buodd Bethan yn clywed rhai o'n syniadau am beth oedd yn mynd i ddigwydd nesaf ac am ba fath o glawr y bydden ni'n hoffi ei weld. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddarllen y llyfr pan fydd wedi ei orffen. Mae Bethan wedi addo y bydd yn barod erbyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2014.
Cai ac Oisín

Yr Arglwydd Rhys
Aeth dosbarth Miss Jones i Ganolfan Gymunedol y Borth gyda phlant hŷn Ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa i wylio perfformiad Theatr Mewn Addysg am yr Arglwydd Rhys. Dysgodd y plant lawer am gyfnod y Tywysogion yng Nghymru.

Sbri-di-ri
Aeth Dosbarth y Cyfnod Sylfaen i Ysgol Penglais i gymeryd rhan mewn gweithgareddau Sbr-di-ri yr Urdd. Bu Gwenda Owen yn canu a dawnsio gyda'r plant a daeth Sali Mali, Jac do a Mistar Urdd i weld y plant. Roedd y plant wrth eu bodd gyda'r adloniant.

Croeso a ffarwel
Croesawn Mrs Lynwen Morgan i'r ysgol fel athrawes rhan amser. Bydd Mrs Morgan yn dysgu grŵp darllen a sillafu am un bore'r wythnos. Gobeithiwn y bydd yn hapus iawn gyda ni. Rydym yn ffarwelio ag Alison Greeley a fu'n gweithio fel cynorthwy-ydd dosbarth. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.

'Rock Project'
Daeth athrawon drymiau a gitâr trydan o'r cwmni '*Rock Project*' i'r ysgol i gynnal sesiwn blasu i ddosbarth Miss Jones. Cafodd y plant gyfle i chwarae drymiau a gitarau trydan mewn grwpiau bach. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn a chawson nhw docynnau i gael gwers am ddim yn y sesiynau yn Aberystwyth neu Fachynlleth

Ysgol

Trawsgwlad
Aeth pawb o Ddosbarth Miss Jones i Gaeau'r Ficerdy i gystadlu mewn rasys trawsgwlad. Rhedodd y plant yn frwd iawn yn erbyn plant eraill o ysgolion ardal Aberystwyth.

Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol

Cofio T. Llew Jones

Tal-y-bont

Cwrdd â'r Arglwydd Rhys, Arwr y Deheubarth
Roedd hwn yn gyfle arbennig i gyfarfod â'r ymladdwr dewr, Yr Arglwydd Rhys, mewn perfformiad yn Neuadd Gymunedol Borth gyda phlant o Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Llangynfelyn. Roedd hi'n ddiddorol i ddod i wybod am ei hanes. Dysgom mai fe oedd y Cymro cyntaf i adeiladu castell o garreg yng Nghymru a fe wnaeth gynnal yr Eisteddfod gyntaf erioed.

Roedd y Normaniaid yn ei gasáu, roedd brenin Lloegr yn amheus ohono, roedd yr offeiriaid a'r mynachod yn ei barchu ac roedd y beirdd a'r cerddorion yn hoff iawn ohono. Dyn diddorol iawn yn wir!

Diolch yn fawr iawn i blant y Cyfnod Sylfaen ac i Jane Bailey am bobi'r dorth arbennig yma ar gyfer y cynhaeaf.

Sbri-di-ri

Llangynfelyn

Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol cyn gwyliau'r hanner tymor. Croesawyd rhieni, ffrindiau a chymdogion i'r ysgol i weld y plant yn canu, chwarae offerynnau ac yn llefaru.

Bu'r plant lleiaf yn dangos lluniau o bethau sy'n eu gwneud yn hapus. Casglwyd eitemau o fwydydd sych a thuniau a fydd yn cael eu dosbarthu i henoed yr ardal. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am addurno'r neuadd ac am ddarparu paned yn dilyn y gwasanaeth.

Banc y Llan a Chwm Einion

BANC Y LLAN

Fel yr addewais yn rhifyn Mehefin dyma droi eto at lyfr gwerthfawr Hugh Rees sy'n adrodd hanes plwyf Ysgubor-y-Coed, a dechrau gydag enw'r pentref – Banc-y-llan – cyn ei newid yn Eglwys-fach:

Yn wreiddiol enw'r fangre
Yn siŵr yw "Banc-y-llan",
A'r enw hwn ddylasid
Ei alw ym mhob man...

Wedyn mae'n esbonio'r enw newydd:

Nid bach o ran maintioli
Yw'r ystyr yma cawn,
Ond cangen oedd yr "Eglwys"
O Langynfelyn draw,
Bob pryd sefydlid cangen
Hi fydded fawr neu fach
Bob pryd fe elwir honno
Wrth enw "Eglwysfach".

Dylid cofio fod Eglwys / Capel-Edwin yn bod ganrifoedd ynghynt wedi'i sefydlu gan Edwin Brenin *Northumbria* wedi iddo groesi'r afon Ddyfi, ennill brwydr yn Llanfihangel Genau'r Glyn, ymsefydlu wedyn lle mae fferm Ynys Edwin, adeiladu eglwys / capel, a'i alw'n Gapel Edwin.

O gofio mai'r lliwgar Ddr. William Price, Llantrisant, oedd y cyntaf i losgi corff marw mae Hugh Rees yn trafod y pwnc mewn nifer o benillion:

Ar ôl i rywun farw
Fe'i llosgid gyda brys
Ar ben y garnedd gerrig
Medd f'ewyrth Syr John Rhys.
Rhain ydoedd hen ddaliadau
Ein hen gyn-deidiau gynt,
Oedd llosgi'r corff yn lludw
A'i daflu gyda'r gwynt.

Os eir i Ystradeinion
I gael Pantwenty mawr
Ceir gweled ôl hen garnedd
Sydd heddiw ar y llawr.
Wrth goeden fawr griafol
Mae cerrig mawrion trwm
Rhyw ddeugain llath neu ragor
O gapel bach y cwm

CWM EINION

Un o ddwy gangen Capel y Graig, Ffwrnes oedd 'capel bach y cwm' y soniais amdano y tro diwethaf, lle cynhelid ysgol Sul ac oedfa bob yn ail ag oedfa yn y gangen arall yng Nglandyfi – mae'r addoldy hwnnw i'w weld y tu ôl i'r wal newydd. O sôn am gapel mae Hugh Rees yn dweud fod 15 pregethwr cynorthwyol yn y plwyf a bod 4 o feibion y fro wedi mynd i'r weinidogaeth gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac 8 i weinidogaeth y Wesleaid, yn eu plith, dau frawd (efeilliaid mi gredaf) Jacob a Thomas John, meibion John Pritchard, teiliwr a faged yn y fro, ac Ann, genedigol o Drefgelwys, Maldwyn. Symudodd y teulu i Ferndale ddechrau 1869 ac yno mae'n debyg y dechreuodd y brodyr bregethu. Ordeiniwyd Jacob ym 1877 ac wedi gwasanaethu am 35 o flynyddoedd bu farw'n 59 oed yng Nghaerdydd, 3 Mawrth 1912.

Roedd Thomas John wedi'i ordeinio ddwy flynedd o flaen Jacob, a chyn ei farw yng Nghaerodor / Bryste, 21 Ionawr 1918, bu'n un o arweinyddion y Wesleaid. Golygodd y cylchgrawn plant,*Y Winllan* (1892-1894), roedd yn un o olygyddion Llyfr Emynau'r Wesleaid, 1900; bu'n Gadeirydd Talaith y De, ac yn Llywydd Wesleaid Cymru ym 1911. Yn y cyfarfodydd yn Nhywyn anerchodd ar 'Dyletswydd yr Eglwys yn yr Argyfwng Presennol'. Roedd T.J. 'Glan Dyfi', yn llenor, bardd ac emynydd crefftus a'i emyn mwyaf adnabyddus yw'r un a ganwn ar ddechrau blwyddyn, rhif 92 yn *Caneuon Ffydd*:

Tad tragwyddoldeb, plygaf ger dy fron,
ceisiaf dy fendith ddechrau'r flwyddyn hon;
trwy blygion tywyll ei dyfodol hi,
Arweinydd anffaeledig, arwain fi...

O blith y bechgyn aeth i'r weinidogaeth gyda'r Methodistiaid Calfinaidd y mwyaf adnabydduss oedd Thomas John Edwards, mab Bwlcheinion:

Thomas John Bwlcheinion
Un enwog iawn oedd e,
Ni chlywid erioed well doniau
Trwy'r Gogledd na thrwy'r De...

Y mae'r Llyfrgellydd enwog yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru Bangor gynt, y Dr.Thomas Richards (Doc Tom) a faged ar fferm Ynystudur ar ffin plwyfi Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed, yn cyfeirio at Thomas John Edwards yn ei gyfrol *Atgofion Cardi*, 1960, wrth sôn am y pregethwyr a ddeuai i bregethu i'r capel bach (cangen o Rehoboth, Taliesin) ar dir ei gartref a'i alw ar ôl y fferm. Wedi cyfeirio at Dr.Rees, Bronant, dywed, "Nid oedd gradd o gwbl gan Thomas John Edwards, gweinidog ym Mhenrhiw-ceibr; Pontmorlais, Merthyr; ac Abercarn, ond yn fwy sicr o gynulleidfa hyd yn oed na'r Doctor. Am resymau da, un wedi codi i bregethu o le annhebyg iawn, ac yn wyneb diffygion corff tra anarferol. Oherwydd nid oedd draed fel dyn arall; yr argraff a welid o ôl ei gerddediad oedd llun ceiniog fawr. Un adwaith o'i analluogrwydd oedd iddo ddod yn saethwr hyfedr, ac yn farchocwr ceffyl hafal i unrhyw joci. Ac yn bregethwr tan gamp; personoliaeth hawddgar, wyneb llawn, llais soniarus, pethau da. A'r plant yn tyrru o'i gwmpas i gael ei weled yn neidio ar gefn ei geffyl. Sul mawr oedd Sul Thomas John".

Er y gallwn barhau i drafod hanes Ysgubor-y-coed yn y 381 pennill wyth llinell a groniclwyd gan Hugh Rees, dyfynnais ddigon i ddangos ei fod wedi gwneud cryn gymwynas â'i ardal. Wrth ddiolch am hynny byddai'n dda gweld eraill yn croniclo hanes eu cynefin. Rwy'n ddiolchgar i'm cyfeillion Catherine, ei brawd John Griffiths a Non, Ffwrnes, am gopi o lun Hugh Rees a Jane Elizabeth ei wraig, ac am wybodaeth am y teulu. Elisabeth un o chwiorydd Hugh oedd eu mam-gu, ac un arall, Catherine, oedd mam-gu Beryl Glanrafon, Tal-y-bont.

W.J.E.

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Glanyrafon
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth MOT
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 28 Hydref 2013.

Croeso'r Cadeirydd

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Enoc Jenkins, groeso i'r aelodau. Rhoddodd groeso arbennig i Lowri Jones, Frongoch View, Tre'r-ddôl, a benodwyd yn ddiweddar fel Clerc newydd y Cyngor. Bydd Lowri yn dechrau ar ei gwaith ar 1 Rhagfyr.

Hysbysfwrdd Newydd

Adroddodd y Clerc fod yr hysbysfwrdd newydd bellach wedi ei osod o flaen y Neuadd Goffa, ac am y tro bydd yr hen hysbysfwrdd yn aros yn ei le. Cedwir un set o allweddi'r hysbysfwrdd newydd gan y Clerc a'r set arall gan Ieuan Morgan ar ran Pwyllgor y Neuadd Goffa.

Un Llais Cymru

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhian Evans adroddiad byr o Gynhadledd a Chyfarfod Blynyddol *Un Llais Cymru* a gynhaliwyd yn Llanelwedd yn ddiweddar. Pasiwyd cynnig Cyngor Ceulanamaesmawr i bwyso ar Lywodraeth Cymru i resymoli rheolaeth afonydd yng Nghymru.

Cais Cofrestru Patshyn Plant Maes-y-deri

Cyflwynodd y Cynghorydd Gerwyn Jones adroddiad o'i brofiad yn cynrychioli'r Cyngor yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus ar 16 Hydref. Fel llawer un arall a gyflwynodd dystiolaeth, teimlai fod rhai o'r cwestiynau a holwyd gan y bar-gyfreithiwr a gynrychiolai Tai Ceredigion yn amherthnasol i'r cais i gofrestru'r tir fel patshyn pentref. Deellir y bydd yn rhaid aros am 2 i 6 mis cyn derbyn canlyniad yr Ymchwiliad.

Ffyrdd

Adroddodd y Cynghorydd David Evans fod yr arwydd yn Bwlchygarreg bellach wedi ei ail-osod; adroddodd y Cadeirydd fod peth gwaith atgyweirio wedi'i wneud i'r ffos ar ffordd Cwm Ceulan.

Gweithfeydd Dŵr Cymru Newydd Bont-goch

Mae'r dasg o uwchraddio'r gweithfeydd trin dŵr yn Bont-goch bellach ar waith. Cyn dechrau paratoi'r safle fe godwyd ffens o'i amgylch, ail-gyfeirio a lefelu'r llwybr cyhoeddus a pharatoi ffordd bwrpasol ar gyfer y cerbydau gwaith. Hefyd, torrwyd y dywarchen gyntaf gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ac Elin Jones AC mewn seremoni fer a gynhaliwyd bnawn Iau 24 Hydref. Neilltuwyd y darn tir sy'n ffinio'r ffordd o Bontgoch i Penrhyncoch ar gyfer cae chwarae, ac mae Dŵr Cymru wedi addo swm o £20,000 tuag at brynu offer i'r cae chwarae. Maent wedi gosod amod bod eu cyfrifoldeb hwy yn dod i ben bryd hynny a chyfrifoldeb y Pwyllgor Cymunedol a/neu Cyngor Ceulanamaesmawr fydd datblygu a chynnal y safle. Y targed yw cwblhau'r gwaith erbyn Gwanwyn 2015, felly dylid cynllunio i ddatblygu'r cae chwarae mewn da bryd i'w agor yn haf 2015.

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Cynllunio

Adroddwyd fod y cais i godi ystafell haul yn 22, Dôl Pistyll, Tal-y-bont a'r cais i ddefnyddio stablau Erw Las, Bont-goch fel rhai masnachol wedi eu caniatáu gan yr Awdurdod Cynllunio.

Arwyddion Cyfyngu Cyflymdra

Adroddodd y Cynghorydd Bleddyn Huws fod deiseb yn cael ei threfnu gan un o drigolion y pentref i bwyso ar y Cyngor Sir i godi arwyddion cyfyngu cyflymdra ar y ffordd rhwng talcen y Llew Du ac Eglwys Dewi Sant, heibio Brynhyfryd a ffald Penpompren. Cytunwyd i anfon llythyr at yr Adran Priffyrdd yn cefnogi dyhead y deisebwyr.

Mainc Gyhoeddus Bont-goch

Adroddodd y Cynghorydd Emyr Davies mai'r dymuniad yw lleoli'r fainc ar bwys yr hysbysfwrdd. Bydd y Clerc yn cysylltu ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i sicrhau bod y lleoliad yn dderbyniol cyn symud y fainc o'r Patshyn Glas.

CYMDEITHAS TREFTADAETH LLANGYNFELYN

Erbyn hyn mae tymor newydd y gymdeithas wedi dechrau gyda dau gyfarfod llwyddianus a diddorol.

Ar 24ain Medi cawsom sgwrs gan Nigel Callaghan, ar yr amrywiaeth mawr o swyddi oedd ar gael yn yr ardal yn y gorffennol – mor bell o'r syniad cyffredin fod pawb yn forwyn neu was fferm.

Wedyn ar y 29eg Hydref daeth Michael Freeman, cyn guradur Amgueddfa Ceredigion, i roi i ni yr hanes hir sydd i dai bach – pwnc na all yr un ohonom ei osgoi. Gwelsom y gwellhad i iechyd a safonau byw a ddaeth yn sgil datblygiadau mewn carthffosiaeth a glanweithdra, a'r cyfleusterau cyntefig oedd y mwyafrif yn cymeryd yn ganiataol hyd at ganol y ganrif ddiwethaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth y 26ain Tachwedd am 7.30 yn y Llanfach pryd y bydd Richard Ireland yn trafod rhai o'r lluniau cynharaf o droseddwyr a dynnwyd yng ngharchardai Cymru.

Y Gair Olaf

Chwythodd y gwynt a diffoddodd y goleuadau neithiwr. Roedd y cyflenwad trydan wedi peidio! Daeth yn ôl ymhen rhyw awr, diolch i ymdrechion bechgyn y gwasanaeth trydan.

Ond dyna beth oedd tawelwch. Dim sŵn rhewgell, oergell na theledu. Dim problem, toedd batri'r gliniadur wedi ei wefru'n llawn, drwy lwc. Ond, doedd y ffôn na'r *WiFi* ddim ar gael – drapia, rheini angen trydan hefyd! Roeddem yn gofalu am yr wyrion bach, a dyma gael y bocs gemau o'r cwpwrdd.

Ydi, mae'n byd bach wedi mynd yn llwyr ddibynnol ar gyflenwad o drydan. Ond o ble ddaw'r trydan? Daw'r rhan helaethaf ohonno drwy losgi glo, olew neu nwy – neu drwy 'losgi' tanwydd niwclear. Daw rhyw 10% ohonno o ffermydd gwynt megis Mynydd Gorddu, o gynlluniau hydro fel Nant-y-Moch – ac o baneli solar.

Mae terfyn i'r cyflenwad glo, olew, nwy a wraniwm (tanwydd y pwerdai niwclear). Does dim amheuaeth chwaith, bellach, fod llosgi glo, olew a nwy yn achosi newid i hinsawdd ein planed. Oni fyddai'n synhwyrol buddsoddi'n holl ymdrechion i sicrhau fod ein holl gyflenwad trydan yn dod o ffynhonellau adnewyddol (sef, goleuni a gwres yr haul a symudiad y llanw)? Cyhoeddwyd yn ddiweddar fod Yr Almaen wedi sicrhau fod 59% o'u cyflenwad yn adnewyddol ar un diwrnod. Eu bwriad yw cyrraedd 100%. Oni ddylai hynny fod yn darged brys i ninnau hefyd? Bydd yn rhaid gwneud hynny yn y diwedd, beth bynnag.

Meddyliwch, o ddifri, dyfodol heb orfod poeni am bris glo, olew, nwy na wraniwm!

Iolo ap Gwynn

Chwaraeon

GOLFFWYR LLWYDDIANNUS

Mae Dennis Roberts, Maes-y-deri, Tal-y-bont wedi cael cryn lwyddiant mewn cystadlaethau Clwb Golff Borth ac Ynyslas yn ddiweddar. Enillodd Dennis Dlws y Ffiwsilwyr, sef pyter arian hynafol a gyflwynwyd i'r clwb gan y *Northumberland Fusiliers* yn 1914. Cyflwynwyd y Tlws i Dennis gan Iwan Thomas ar ran y Clwb. Hefyd yn y llun mae Steve Williams, Taliesin, a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth, ynghyd â Steve Rose a Chris Williams (capten y Clwb).

Roedd Dennis hefyd yn fuddugol mewn cystadleuaeth i barau ynghyd â'i bartner, un o feibion Tal-y-bont, Kevin Roberts. Dyma'r ddau gydag Hambwrdd Arian Peter Jones,

Pob lwc hefyd i Harry James, Llannerch, Tal-y-bont, sydd newydd ddod yn gapten ar y Clwb am y tymor 2013-14.

Tal-y-bont Teigars dan 11

Tîm pêl-droed merched Tal-y-bont Teigars dan 11 yn eu cit newydd a noddwyd gan Cyril Evans, Jewellery House, Aberystwyth. Diolch hefyd i Gist Gymunedol am eu cefnogaeth. Dechrau anodd i'r tymor, colli 3 gêm ac un gêm cyfartal. Gyda lwc fydd y cit newydd yn rhoi lwc iddynt ar gyfer gweddill y tymor.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Ioga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

Hanner Marathon!



Dyfan Rhys a Mali Thomas, gynt o Dal-y-bont ar ôl cwblhau hanner marathon Caerdydd yn ddiweddar.

Cinio Cawl Apêl Haiti

Cafwyd cinio cawl yn y neuadd i ddilyn y gwasanaeth ym Methel ar fore Sul 20fed o Hydref. Bob pedair blynedd mae Undeb yr Annibynwyr yn cynnal apêl arbennig tuag at waith Cymorth Cristnogol mewn un wlad benodol. **APÊL HAITI** gynhelir yn 2013-14, er budd pedwar prosiect i helpu gwlad dlawd a chwalwyd gan ddaeargryn anferth yn 2010 a chorwynt Sandy yn 2012. Elenid Jones, cydlynydd yr apêl yn y De oedd y wraig wadd a thrwy cyfres o luniau a DVD cawsom ddarlun clir o'r dinistr yn Haiti a sut y mae cyfraniad bychan gennym ni yn medru gwneud gwahaniaeth enfawr i drigolion yr ynys. Ar derfyn y cinio casglwyd dros £400 – cychwyn ardderchog i gyfraniad Bethel i'r apêl.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:
- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau'r papur**

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen

papurpawb.com